

Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 15 Ionawr 2002

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.

[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

Cwestiynau i Brif Weinidog Cymru

Datganiad Laeken yr Undeb Ewropeaidd

C9 Brian Hancock: Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu ymateb i ddatganiad Laeken yr Undeb Ewropeaidd? (OAQ14880)

Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan): Cytunwyd testun datganiad Laeken gan aelod-wladwriaethau'r Undeb Ewropeaidd yn yr uwchgynhadledd fis Rhagfyr. Ymgynghorodd yr Ysgrifennydd Tramor â mi drwy Gyd-bwyllgor y Gweinidogion ar Ewrop cyn yr uwchgynhadledd a bydd y pwyllgor hwnnw yn parhau i ddarparu cyfrwng i fynegi fy marn wrth i'r ddadl fynd rhagddi. Mae'r datganiad yn rhoi braslun o faterion pwysig a fydd o ddiddordeb mawr i'r Cynulliad rhwng nawr a'r gynhadledd rynglywodraethol yn 2004.

Codi Proffil Diwylliannol Cymru

C10 David Lloyd: Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn bwriadu codi proffil diwylliannol Cymru yng ngweddill Ewrop? (OAQ14877)

Prif Weinidog Cymru: Mae codi proffil Cymru yn Ewrop a gweddill y byd ymhlith prif flaenoriaethau'r Cabinet o hyd.

Mae enghreifftiau diweddar o gyfleoedd i godi proffil diwylliannol Cymru yn Ewrop yn cynnwys ymweliad llysgennad Ffrainc â Gŵyl Ffilm Ryngwladol Cymru yng Nghaerdydd y mis diwethaf a'n cyfraniad swyddogol i gynhadledd gyffredinol Mudiad Addysgol, Gwyddonol a Diwylliannol y Cenhedloedd Unedig ym Mharis ar 30 Hydref 2001.

Ceir cyfle mawr arall eleni gan mai Cymru fydd y wlad dan sylw yng ngŵyl gerddoriaeth ryng-geltaidd yn Lorient, Llydaw.

Adfywio Cymunedau Dur

C11 Peter Law: Pa gynlluniau trawsbynciol sydd gan Brif Weinidog Cymru i adfywio cymunedau dur? (OAQ14883)

Prif Weinidog Cymru: Mae'r rhaglen werth £66 miliwn i adfywio'r cymunedau dur yn cynnwys paratoi fframwaith adfywio'r De-ddwyrain. Mae'r fframwaith, a baratowyd ar y cyd â'r awdurdodau lleol, Awdurdod Datblygu Cymru ac eraill, yn nodi'r blaenoriaethau, sef trafndiaeth, defnyddio'r tir, datblygu economaidd a mentrau adfywio cymunedau mewn modd cynhwysfawr a thrawsbynciol.

Polisi i Helpu Ardaloedd Gwledig

C12 Kirsty Williams: Sut y bydd Prif Weinidog Cymru yn cydgysylltu polisi ar draws y Cynulliad yn 2002 er mwyn rhoi ardaloedd gwledig yn ôl ar eu traed ar ôl 2001? (OAQ14894)

Prif Weinidog Cymru: Myfi sy'n cydlynu polisi i Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Gweinidogion sy'n arwain ar y materion yn ôl eu cyfrifoldebau. Disgrifir y gwaith a wneir i gynorthwyo ardaloedd gwledig mewn sawl dogfen, gan gynnwys y cynllun adfer gwledig.

Bydd y Gweinidog dros Faterion Gwledig yn parhau i gydweithio'n agos â phartneriaeth wledig Cymru wrth ddatblygu polisiâu gwledig. Yn sgîl cytundeb â'r bartneriaeth wledig, yr ydym wedi gwahodd ceisiadau i ymchwilio i'r rhesymau pam mae pobl ifanc yn gadael ardaloedd gwledig a'r rhwystrau o'u blaen os ydynt am ddychwelyd. Un o ganlyniadau'r gwaith fydd cynllun gweithredu i ymdrin â'r materion a ddaw i'r amlwg.

Creu Llywodraeth Fwy Agored

C13 Rhodri Glyn Thomas: Pa gamau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cymryd i ddatblygu gweithdrefnau ymgynghori cyson, sydd ar gael i bawb, er mwyn creu llywodraeth fwy agored? (OAQ14893)

Prif Weinidog Cymru: Mae ymgynghori wrth wraidd ein hymrwymiad i fod y weinyddiaeth fwyaf agored ac ymatebol yn y DU, sy'n cynnwys y cymunedau sydd â diddordeb a'r cyhoedd wrth lunio polisi. Yr ydym eisoes wedi defnyddio technoleg gwybodaeth yn arloesol, drwy 'Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales' er enghraifft, a datblygu ffyrdd newydd o ymgynghori a chanllawiau newydd i alluogi pawb i gymryd rhan mewn llywodraethu.

Polisi i Leihau Colledion Swyddi yng Ngogledd Cymru

C14 Ieuan Wyn Jones: Sut y mae Prif Weinidog Cymru yn cydgyssylltu polisi yn y Gogledd er mwyn sicrhau bod llai o swyddi yn cael eu colli yn yr ardal? (OAQ14891)

Prif Weinidog Cymru: Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r partneriaid yn Nhîm Cymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, sy'n cydlynu'r gwaith a wneir i ymateb pan gyhoeddir y bydd gweithfeydd mawr yn cau. Ategwyd y drefn honno yn ddiweddar ar ôl i Awdurdod Datblygu Cymru a Dysgu ac Addysgu Cymru (ELWa) lofnodi memorandwm cyd-ddealltwriaeth i sicrhau eu bod yn arddel dull o weithio sy'n wirioneddol bartneriaethol wrth iddynt gynorthwyo cymunedau sy'n colli swyddi.

Goblygiadau'r Ewro i Gymru

C15 Alison Halford: Pa drafodaethau y mae Prif Weinidog Cymru wedi'u cael ynghylch goblygiadau'r ewro i Gymru? (OAQ14873) *Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.*

Prif Weinidog Cymru: Trafodwyd goblygiadau'r ewro'n eang ers ei chyflwyno ar 1 Ionawr, gan gynnwys y drafodaeth yng Nghyfarfod Llawn y Cynulliad yr wythnos diwethaf.